# CYLCH GORCHWYL

| | |
|---|---|
| **ENW** | **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU POLISI A CHYN PENDERFYNU** |
| **DIBEN** | Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu yn adolygu ac yn craffu ar bolisïau, cynlluniau a strategaethau cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad arnynt. |
| **GWAITH A SWYDDOGAETH** | Craffu cyn i benderfyniadau gael eu gwneud ar bolisïau, cynlluniau, a strategaethau er mwyn cyfrannu at ansawdd a chadernid penderfyniadau'r Cabinet.<br><br>Rhoi sicrwydd bod penderfyniadau'r Cabinet yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wedi ystyried yr egwyddor 'datblygu cynaliadwy' a'r 5 ffordd o weithio (hirdymor, ataliol, yn cynnwys, cydweithredol, ac integredig), yn ogystal â gofynion statudol eraill fel y bo'n briodol (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010).<br><br>Sicrhau bod Aelodau anweithredol yn cyfrannu at bolisi cyllideb a fframwaith cynllunio'r Cyngor drwy Banel Cyllid sefydlog. |
| **GYLCH GWAITH A CHWMPAS** | • Blaenraglen waith y Cabinet<br>• Cynigion ar gyfer newid, trawsnewid a / neu effeithlonrwydd gwasanaethau<br>• Asesiadau Effaith Integredig<br>• Strategaethau a Chynlluniau, fel y bo'n briodol<br>• Datblygu a chynllunio ar gyfer y gyllideb flynyddol a chynigion y Dreth Gyngor drwy'r Panel Cyllid |
| **GWEITHDREFN** | Bydd y Pwyllgor yn cynnal ei drafodion yn unol â rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu a nodir yn Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor. |
| **AELODAETH** | Bydd 13 o Aelodau ar y Pwyllgor. |
| **AMLDER CYFARFODYDD** | Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu yn cyfarfod o leiaf 5 gwaith yn ystod pob blwyddyn ddinesig. |